Datganiad Newyddion

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

26 Ionawr 2010

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yn croesawu gwelliant ar draws Cymru, ond dywed fod gormod o ddysgwyr yn tangyflawni o hyd

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion, colegau a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill yn perfformio'n dda, yn ôl Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2008-2009. Dros y deuddeng mis diwethaf bu gwelliant ar draws pob sector ac mae arolygwyr wedi gweld mwy o waith 'da' a 'rhagorol' na gwaith 'gwael' neu 'anfoddhaol'.

Mae'r adroddiad, fodd bynnag, yn tynnu sylw hefyd at y ffaith fod angen gwella'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar fyrder mewn rhai achosion, gan fod gormod o ddysgwyr yng Nghymru'n cael tangyflawni – yn enwedig y dysgwyr 'mwy galluog a dawnus' a phobl ifanc o gefndiroedd dan anfantais.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno tystiolaeth annibynnol o arolygiadau a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n ystyried pa gynnydd sydd wedi'i wneud gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru o ran mynd i'r afael â'r pedair prif her:

1. gwneud yn siŵr bod dysgwyr i gyd yn gallu cyrraedd eu potensial;
2. diwallu anghenion dysgwyr dwyieithog;
3. cryfhau gweithio mewn partneriaeth; a
4. gwella gallu darparwyr i arfarnu a gwella'u perfformiad eu hunain.

Eleni, am y tro cyntaf, mae astudiaethau achos ‘go iawn’ wedi’u cynnwys yn yr adroddiad er mwyn dangos sut mae rhai darparwyr addysg a hyfforddiant a gafodd eu harolygu’r llynedd yn mynd i’r afael yn llwyddiannus ag un neu fwy o’r heriau hyn.

Wrth lansio’i adroddiad heddiw (26 Ionawr) yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, dywedodd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, Dr Bill Maxwell:

“Ein her fwyaf heddiw yw mynd i’r afael â chyffredinedd er mwyn dod â’r darparwyr gwannaf i fyny i lefel y goreuon. Mae angen i ni godi disgwyliadau a chymell dysgwyr i fod yn uchelgeisiol ac i gyflawni o’u gorau. Rhaid i ni fynnu’r safonau uchaf o ran darpariaeth addysg a hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy’n agored i dangyflawni, fel y rhai o gefndiroedd dan anfantais neu’r rhai mewn gofal.”

“Mae angen i ddysgwyr yng Nghymru gredu bod y gallu ganddynt i lwyddo, ac mae angen i ni roi’r arferion ar waith i’w galluogi i wneud hynny, fel gweithio gwell mewn partneriaeth, mwy o hunanarfarnu trylwyr a chynllunio ar gyfer gwella, addysgu medrus sy’n ysbrydoli, a datblygiad proffesiynol mwy cynhwysfawr ar gyfer y rhai sy’n gweithio mewn addysg.”

Dyma brif ganfyddiadau’r adroddiad:

- er gwaethaf gwelliant ar draws y rhan fwyaf o sectorau, nid yw llawer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a llawer o ddisgyblion mwy galluog a dawnus yn cael y cymysgedd iawn o her a chymorth i sicrhau eu bod yn cyflawni’u potensial llawn;
- gwelwyd tuedd galonogol tuag i fyny yn ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd;
- mae disgyblion yn dechrau dysgu Cymraeg fel ail iaith yn dda pan fyddant yn dechrau’r ysgol, ac mae llawer ohonynt yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu’r iaith, ond yn fuan mae’n mynd yn un o’r meysydd gwannaf mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, ac yn aml cynnydd cymharol fach y mae dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ei wneud o ran dysgu Cymraeg ar hyd eu blynyddoedd ysgol;

- mae safon adeiladau a chyfleusterau ysgolion uwchradd yn parhau i achosi pryder, ac fe nododd dros 40% o arolygiadau ysgol bod diffygion yn y maes hwn;
- roedd gwasanaethau gwella ysgolion mewn awdurdodau lleol yn dda yn gyffredinol, ac yn aml roedd awdurdodau'n darparu'n dda iawn ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, ond roedd llawer o'r rhai a gafodd eu harolygu wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â her lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion;
- roedd ansawdd gwaith a arolygwyd yn y sector ôl-16 ychydig yn waeth nag a adroddwyd yn yr adroddiad blynyddol blaenorol, yn enwedig mewn dysgu yn y gwaith ac yn y ddarpariaeth ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau, lle'r oedd ansawdd gwaith yn amrywio gormod o un darparwr i'r llall;
- mae gwelliant nodedig wedi bod mewn hunanarfarnu ar draws pob sector, ond nid yw'n cael ei ddatblygu digon mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac mewn llawer o rwydweithiau 14-19; ac
- mae gwelliant nodedig wedi bod mewn gweithio mewn partneriaeth o ran cydweithredu, ond mae cynnydd tuag at drawsnewid yn cael ei rwystro o hyd gan rai anawsterau ymarferol a rhywfaint o ddiffyg ymddiriedaeth.

Daw Dr Bill Maxwell i'r casgliad:

> *"Rwy'n cael fy nghalonogi gan yr hyn sydd wedi'i gyflawni dros y deuddeng mis diwethaf a chan yr enghreifftiau lu o arfer dda a nodais yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn dangos y gall cynnydd go iawn gael ei wneud o ran mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r heriau. Nawr, mae'n rhaid i ni ailddyblu ein hymdrechion i fynd i'r afael â'r pocedi o arfer wannach ac arfer fwy canolig, gyda'r nod o ddileu tangyflawni ar hyd a lled Cymru."*

-DIWEDD-

Nodiadau i Olygyddion:

Mae copi llawn o Adroddiad Blynyddol 2008-2009 a gweddarllediad gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi wedi'u cyhoeddi ar wefan Estyn http://www.estyn.gov.uk/annual_report.asp

Estyn yw Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw ein bod yn cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ond yn cael ein hariannu ganddi (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael rhagor o wybodaeth, trowch at ein gwefan www.estyn.gov.uk

Cyfweliadau'r cyfryngau

I drefnu cyfweliad gyda Dr Bill Maxwell, PAEM neu Ann Keane, Cyfarwyddwr Strategol (Cymraeg), cysylltwch â:

Gina Carrington,

Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata

Estyn

cyfathrebu@estyn.gov.uk

02920 446454